Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Dinas Casnewydd

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn cyhoeddi: Awst 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2440A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am ei sefyllfa ariannol ac mae'n cydnabod yr angen i drawsnewid y modd y mae'n darparu gwasanaethau ar gyfer cynaliadwyedd yn y dyfodol, er bod angen gwaith pellach i ddylunio'r newidiadau hyn a'u rhoi ar waith.

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am ei sefyllfa ariannol ac mae'n cydnabod yr angen i drawsnewid y modd y mae'n darparu gwasanaethau ar gyfer cynaliadwyedd yn y dyfodol, er bod angen gwaith pellach i ddylunio'r newidiadau hyn a'u rhoi ar waith 5

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru 5

Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol sy'n meintioli'r bwlch o ran cyllid ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol ac yn parhau i gydnabod yr angen i weddnewid y modd y darperir gwasanaethau, er nad yw manylion y newidiadau hyn wedi cael eu cadarnhau eto 6

Er bod y Cyngor wedi lleihau ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn y flwyddyn ddiwethaf, maent yn dal i fod yn gymharol uchel, er bod y rhan fwyaf wedi'u clustnodi ar gyfer defnydd penodol a bod cyfran sylweddol yn ymwneud ag ymrwymiadau Mentrau Cyllid Preifat yn y dyfodol 9

Mae'r Cyngor yn gyson wedi gwario o fewn ei gyllideb refeniw dros y blynyddoedd diwethaf 11

Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion ond mae'n ei chael yn anos adnabod arbedion yn y dyfodol i fantoli ei gyllideb 13

Mae gan y Cyngor sefyllfa hylifedd resymol i gwrdd â'i rwymedigaethau uniongyrchol 14

# Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham

1 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn gan bod cynaliadwyedd ariannol yn dal i fod yn risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o ran adnoddau gostyngol ar gyfer llywodraeth leol ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Fe gynhaliom ni brosiect tebyg yn 2019-20, cyn pandemig COVID-19.

2 Cynhaliwyd ein hasesiad yn 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Roedd Cam 1 yn seiliedig ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 yn 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 fe gyhoeddom ni adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[1]. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno'n nodi sefyllfa sylfaenol lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cynghorau lleol o ran eu cronfeydd wrth gefn cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ddisgwylid wrth edrych tua'r dyfodol.

4 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ar gam 2 ein gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

5 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn rhwng mis Chwefror 2021 a mis Mawrth 2021.

[1] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

# Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am ei sefyllfa ariannol ac mae'n cydnabod yr angen i drawsnewid y modd y mae'n darparu gwasanaethau ar gyfer cynaliadwyedd yn y dyfodol, er bod angen gwaith pellach i ddylunio'r newidiadau hyn a'u rhoi ar waith

## Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru

6 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

7 Canfuom fel a ganlyn:

- aeth y Cyngor ati'n gyflym i bennu Nodau Adfer Strategol mewn ymateb i bandemig COVID-19 sy'n egluro ei flaenoriaethau. Mae'r Cyngor wedi defnyddio'i fframwaith llywodraethu presennol i reoli'r broses o gyrraedd y Nodau Adfer Strategol ychwanegol hyn.
- wrth baratoi ei gynlluniau ariannol, mae'r Cyngor wedi cynnal eitem ddigwyddiadol gyffredinol o £1.5 miliwn o fewn ei gyllideb refeniw fel mesur diogelu ar gyfer costau anhysbys (yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol). Ar ben hyn, mae wedi rhagweld effaith bosibl pandemig COVID-19 trwy refeniw is a chostau ychwanegol. Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r dull hwn mewn blynyddoedd blaenorol ac wedi cyflawni tanwariannau bychain dros y blynyddoedd diwethaf.

**Arddangosyn 1: cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21**

Mae'r tabl isod yn dangos gwariant ychwanegol y Cyngor a'r incwm a gollwyd ganddo yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19 yn ôl yr amcangyfrifon, a faint o hyn a liniarwyd gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi ei wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £18.1 miliwn |
| Swm yr incwm y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi'i golli o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £5 miliwn |
| Swm y cyllid ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19. | £23.1 miliwn |
| Cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21, ar ôl ystyried y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. | £0 |

Ffynhonnell: Cyngor Dinas Casnewydd, Mawrth 2021

## Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol sy'n meintioli'r bwlch o ran cyllid ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol ac yn parhau i gydnabod yr angen i weddnewid y modd y darperir gwasanaethau, er nad yw manylion y newidiadau hyn wedi cael eu cadarnhau eto

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

8 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau diweddar a'r pwysau a ddisgwylir o ran cyllid ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn arbennig sut y bydd yn cwrdd â bylchau a ragamcanir o ran cyllid.

9 Canfuom fel a ganlyn:

- ym mis Awst 2020 fe wnaethom adrodd[2] nad 'oes gan y Cyngor strategaeth gynaliadwy eto i gefnogi cydnerthedd a chynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig'. Hefyd, fod y 'Cyngor wedi cydnabod y bydd angen iddo ddefnyddio dull gwahanol i'r un y mae wedi'i ddefnyddio hyd yma. Mae'r Cyngor wedi dynodi ei fod yn bwriadu cynnal adolygiad gwraidd a changen o'i wyth maes gwasanaeth i helpu i gynyddu ei gydnerthedd ariannol'.
- roedd gan y Cyngor gronfa wrth gefn defnyddiadwy 'Buddsoddi i Arbed'[3] o £9.9 miliwn ym mis Mawrth 2020 a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer costau ychwanegol i ariannu rhaglen drawsnewidiol i symud tuag at fodel darparu gwasanaethau sy'n fwy cynaliadwy yn ariannol. Yn naturiol, mae ffocws y Cyngor ar ymateb i argyfwng COVID-19 wedi ei atal rhag gwneud cynnydd pellach yn y flwyddyn ddiwethaf.
- i oleuo'r broses cynllunio ariannol ac adnabod eu bylchau o ran cyllid a ragamcanir, mae'r holl gynghorau'n gwneud tybiaethau ynghylch ffactorau a fydd yn effeithio ar swm y cyllid a fydd ar gael iddynt mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn nodi tybiaethau ariannol yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a gynhyrchwyd ym mis Ionawr 2021, gan gynnwys:
  - cynnydd yng Ngrant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru o 5.58% yn 2021-22 (sydd bellach wedi cael ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru) a chan dybio y ceir codiadau llai o 1.85%, 1.15% ac 1.0% yn y tair blynedd ddilynol.
  - codiadau yn y Dreth Gyngor o 5% yn 2021-22 (a ostyngwyd i 3.7% mewn ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus), yna canran gyson o 4% bob blwyddyn rhwng 2022-23 a 2025-26.
- mae CATC y Cyngor hefyd yn nodi'r tybiaethau a phwysau ariannol allweddol y tu hwnt i chwyddiant cyflogau a phrisiau cyffredinol yn 2021-22. Ym mis Ionawr 2021 roedd y Cyngor yn bwriadu ymateb i'r pwysau hyn trwy ychwanegu oddeutu £8.1 miliwn yn 2021-22 at ei gyllideb refeniw.
- mae CATC y Cyngor yn cynnwys dadansoddiad sensitifrwydd sy'n nodi'r tybiaethau ariannol allweddol a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'i amcanestyniadau cyllidebol ac mae hefyd yn cynnwys canlyniadau unrhyw wahaniaethau yn y tybiaethau hyn.
- ym mis Awst 2020 fe wnaethom adrodd[2] bod: y Cyngor yn cael dros hanner cyfanswm ei refeniw o grant cynnal refeniw Llywodraeth Cymru. Ar adeg ein gwaith maes ar gyfer yr adroddiad hwnnw, roedd y Cyngor yn rhagamcanu bwlch o ran cyllid o £21.8 miliwn am y tair blynedd 2020-2023. Ers hynny, mae'r codiadau gwirioneddol yn y Grant Cynnal Refeniw wedi bod yn sylweddol uwch nag amcanestyniadau'r Cyngor. O ganlyniad, mae'r Cyngor


[2] Archwilio Cymru, Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol Cyngor Dinas Casnewydd, Awst 2020

[3] Cyngor Dinas Casnewydd, Datganiad Cyfrifon 2019-20

bellach yn rhagamcanu bwlch sylweddol lai o ran cyllid o £5.5 miliwn am y tair blynedd nesaf, sef 2021-2024. Caiff gwasgariad y bwlch o ran cyllid ei ddarlunio yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd gyfanswm bwlch o ran cyllid a ragamcanir am y tair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24 o £5.5 miliwn**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod am y tair blynedd ganlynol. Mae'r Cyngor yn rhagamcanu gwariant mantoledig yn 2021-22 ar ôl ystyried arbedion wedi'u cynllunio. Y bylchau o ran cyllid yn y blynyddoedd dilynol yw:




Ffynhonnell: Cyngor Dinas Casnewydd, Cynllun Ariannol Tymor Canolig, Mawrth 2021

- mae CATC a chyllideb y Cyngor yn cynnwys rhai manylion y symiau o arian sy'n cael eu 'buddsoddi' i gyflawni addewidion yn y Cynllun Corfforaethol, megis Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref newydd, trawsnewid digidol a chyflawni'r rhaglen gyfalaf.

## Er bod y Cyngor wedi lleihau ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn y flwyddyn ddiwethaf, maent yn dal i fod yn gymharol uchel, er bod y rhan fwyaf wedi'u clustnodi ar gyfer defnydd penodol a bod cyfran sylweddol yn ymwneud ag ymrwymiadau Mentrau Cyllid Preifat yn y dyfodol

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

10 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw, sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau'r cronfeydd wrth gefn, yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

11 Canfuom fel a ganlyn:

- wrth ystyried y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan y Cyngor ar ddiwedd 2018-19, ym mis Awst 2020 fe wnaethom adrodd[2] bod gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, er bod y rhan fwyaf wedi'u clustnodi ar gyfer defnydd penodol.
- ar ddiwedd 2019-20 cafodd cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor eu lleihau o £94.7 miliwn yn 2018-19 i £78.8 miliwn, yn bennaf gyda throsglwyddiadau i'r Gronfa Gyffredinol o'r Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy ar gyfer: Darpariaeth drwgddyledion; Yswiriant; Ysgolion; Gwariant Cyfalaf; a Buddsoddi i Arbed.
- yn ôl ei Ddatganiad Cyfrifon yn 2019-20 roedd gan y Cyngor gyfanswm o £78.8 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, a'r rheiny'n cynnwys:
  - £44.2 miliwn o 'gronfeydd wrth gefn esmwytho', a neilltuwyd gan y Gyngor i esmwytho amrywiadau yn y cyllid dros amser (mae £42.3 miliwn o hyn yn ymwneud â dau gynllun Menter Cyllid Preifat a fydd yn cael eu dad-ddirwyn dros yr 17 mlynedd nesaf);
  - £17.1 miliwn o 'gronfeydd wrth gefn galluogi', a gedwir ar gyfer buddsoddi posibl yn y dyfodol gan gynnwys cronfa wrth gefn Buddsoddi i Arbed o £9.9 miliwn;
  - £4.8 miliwn o 'gronfeydd wrth gefn risgiau', a ddelir i liniaru risgiau penodol a adnabuwyd gan y Cyngor;
  - £6.5 miliwn o Gronfa'r Cyngor, sydd ar gael at unrhyw ddiben;
  - £5.0 miliwn o 'gronfeydd wrth gefn eraill' ar gyfer prosiectau/materion penodol; ac

  - £1.1 miliwn o falansau cronfeydd wrth gefn sy'n ymwneud ag ysgolion unigol.
- er y gallai balansau llawer o'r cronfeydd wrth gefn uchod gael eu cymhwyso gan y Cyngor ar gyfer defnydd arall, i ryw raddau maent eisoes wedi'u clustnodi at ddibenion penodol yn y dyfodol (heblaw am Gronfa'r Cyngor o £6.5 miliwn). Felly, byddai defnyddio cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi o'r fath yn gallu arwain at gwtogi neu ohirio gweithgarwch arfaethedig yn y dyfodol, neu achosi risg y bydd yn cael ei reoli'n amhriodol. Mae rhai cronfeydd wrth gefn (megis y gronfa wrth gefn esmwytho Mentrau Cyllid Preifat) yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd hefyd ac felly byddai angen eu hailgyflenwi ar frys pe bai'r Cyngor yn mynd iddynt.
- roedd CATC y Cyngor yn cynnig lleihau cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ymhellach i £75.2 miliwn erbyn diwedd 2020-21, gyda'r gostyngiad hwn yn digwydd ar draws ei ystod o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi unigol. Mae'r Cyngor yn rhagweld tanwariant refeniw cymharol fawr yn 2020-21 ac felly ni fydd angen iddo leihau ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ymhellach i ategu cyllidebau refeniw.

**Arddangosyn 3: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor ar ddiwedd 2019-20 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [4] | 278.0 | 277.5 | 284.5 | 294.0 | 299.8 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau [5] | 93.3 | 95.4 | 94.0 | 94.7 | 78.8 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau [6] | 33.5% | 34.5% | 33.0% | 32.2% | 26.3% |

[4] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon


[5] Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Rydym felly'n cynnwys cronfeydd wrth gefn esmwytho Mentrau Cyllid Preifat (£42.3 miliwn ym mis Mawrth 2020) ac nid ydym yn cynnwys derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy (£8.3 miliwn ym mis Mawrth 2020). Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[6] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Safle o’i gymharu â chynghorau eraill Cymru * | 1/22 | 1/22 | 2/22 | 2/22 | 5/22 |

Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon Cyngor Dinas Casnewydd
* Dadansoddiad Archwilio Cymru o Ddatganiad Cyfrifon Cynghorau Cymru

**Arddangosyn 4: mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o Gost Net Gwasanaethau’n gymharol uchel, er eu bod wedi bod yn dirywio am y tair blynedd ddiwethaf**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Ddatganiad Cyfrifon cynghorau Cymru

## Mae’r Cyngor yn gyson wedi gwario o fewn ei gyllideb refeniw dros y blynyddoedd diwethaf

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

12 Mae’n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor sy’n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu’r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

## Yr hyn a ganfuom

13 Ym mis Awst 2020, fe wnaethom adrodd[2] er ei fod wedi parhau i danwario yn erbyn ei gyllideb yn y blynyddoedd diwethaf, bod cynlluniau'r Cyngor yn amlygu y bydd mantoli'r cyfrifon dros y blynyddoedd sydd i ddod yn anos.

14 Ym mis Ionawr 2021[7], roedd y Cyngor yn rhagweld tanwariant o £2.7 miliwn ar ei gyllideb refeniw ar gyfer 2020-21, yn bennaf o ganlyniad i bandemig COVID-19, oherwydd: cau ysgolion dros dro; llai o alw am ei wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion; a bod dim angen defnyddio'r eitem ddigwyddiadol o £1.5 miliwn. Er gwaethaf y tanwariant hwn, mae'r adroddiad yn manylu ar feysydd gwasanaeth lle mae pwysau ariannol yn dal i fodoli ac yn pwysleisio'r angen am gamau cywirol parhaus a'r potensial i hyn waethygu. Mae trefniadau'r Cyngor yn ei alluogi i reoli perfformiad ariannol meysydd gwasanaeth yn fanwl ac felly i ymateb o fewn y flwyddyn i danwariannau a gorwariannau nodedig.

15 Mae'r Cyngor wedi ychwanegu ymrwymiadau pellach at ei raglen gyfalaf yn ddiweddar. Er bod y penderfyniadau hyn yn ddealladwy a bod trefniadau yn eu lle i fonitro cynnydd yn fanwl, mae'r buddsoddiadau cyfalaf hyn yn cynyddu'r costau benthyca i'r Cyngor. Fe gyllidebwyd ar gyfer y costau hyn ond maent yn gosod mwy o straen ar gyllideb refeniw'r Cyngor, a allai fod yn rhwystr i allu'r Cyngor i ymateb yn effeithiol i doriadau posibl i'w gyllid neu bwysau o ran gwariant yn y dyfodol.

**Arddangosyn 5: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net a bennwyd ar ddechrau pob blwyddyn**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant yng nghyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y pedair blynedd ddiwethaf a hefyd y flwyddyn hyd yma o ran y sefyllfa ym mis Tachwedd 2020.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net Wreiddiol £ miliynau [8] | 263.9 | 266.4 | 274.6 | 280.6 | 300.3 |
| Alldro Refeniw Net Gwirioneddol | 263.6 | 265.1 | 272.2 | 278.8 | 297.5* |
| Swm y gwarged (-) / gorwariant (+) ar y cyfan [9] | -0.3 | -1.3 | -2.4 | -1.8 | -2.8* |
| Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net | -0.1% | -0.5% | -0.9% | -0.6% | -0.9%* |

* Ffigwr rhagamcanol gan Gyngor Dinas Casnewydd ar ddiwedd mis Tachwedd 2020.

[7] Cyngor Dinas Casnewydd, adroddiad i'r Cabinet ar 8 Ionawr 2021, Tachwedd 2020 – Monitro'r Gyllideb Refeniw

[8] Y gyllideb Refeniw Net Wreiddiol y cytunwyd arni gan Gyngor Dinas Casnewydd ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol.

[9] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

## Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion ond mae'n ei chael yn anos adnabod arbedion yn y dyfodol i fantoli ei gyllideb

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

16 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny'n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

17 Ym mis Awst 2020, fe wnaethom adrodd[2] fel a ganlyn: er bod y modd y mae'r Cyngor wedi cyflawni arbedion wedi'u cynllunio wedi bod yn gryf dros y blynyddoedd diwethaf, mae ei allu i barhau i gyflawni arbedion mewn gwasanaethau a arweinir gan y galw yn dod yn fwy o her.

18 Er bod CATC y Cyngor yn nodi rhai cynlluniau arbedion dros y cyfnod o bedair blynedd, nid yw'r rhain yn pontio'r bwlch o ran cyllid yn llawn ar ôl 2020-21.

19 Fe adroddodd y Cyngor wrth ei Gabinet ym mis Ionawr 2021 fod y broses o roi ei arbedion wedi'u cynllunio ar waith wedi cael ei gohirio oherwydd argyfwng COVID-19. Mae'r wybodaeth am yr oedi'n fanwl ac wedi'i meintioli.

**Arddangosyn 6: yr arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2019-20 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio**

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed o'i gynlluniau arbedion rhwng 2018-19 a 2019-20 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd yn ogystal ag amcangyfrifon ar gyfer 2020-21 a 2021-22.

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm arbedion wedi'u cynllunio mewn £ miliynau | 8.6 | 6.553 | 5.417 | 3.391 |
| Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd mewn £ miliynau | 7.9 | 5.961 | 4.517 | Amh. |
| Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd mewn £ miliynau | 0.7 | 0.6 | 0.9 | Amh. |
| Canran yr arbedion a gyflawnwyd | 92% | 91% | 83.4% | Amh. |

## Mae gan y Cyngor sefyllfa hylifedd resymol i gwrdd â'i rwymedigaethau uniongyrchol

### Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig

20 Pam ei bod yn bwysig pwyso a mesur asedau cyfredol o'i gymharu â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd):

- mae'n arwydd o'r modd y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i archwilio pa un a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau byrdymor. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd sy'n dynodi sut y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau i gwrdd â'u rhwymedigaethau.
- gall fod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau byrdymor i dalu dyledion.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

21 Canfuom fel a ganlyn:

- mewn un o'r pum mlynedd ddiwethaf sy'n cwmpasu 2015-2020, roedd gwerth asedau cyfredol y Cyngor yn llai na'i rwymedigaethau cyfredol fel a ddangosir yn **Arddangosyn 7**; ac

- roedd yr amrywiad nodedig yng ngwerth Asedau a Rhwymedigaethau Cyfredol yn 2015-2018 i'w briodoli i ariannu a chwblhau Rhodfa'r Brodyr.

**Arddangosyn 7: mae cymhareb hylifedd y Cyngor ar y cyfan wedi bod yn uwch na, neu fwy neu lai'r un fath â chanolrif cynghorau Cymru**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol mewn £ Miliynau | 134.8 | 127.7 | 31.8 | 101.7 | 69.3 | 69.3 |
| Rhwymedigaethau Cyfredol mewn £ Miliynau | 73.9 | 108.9 | 56.5 | 94.1 | 67.5 | 66.9 |
| Cymhareb Hylifedd | 1.8 | 1.2 | 0.6 | 1.1 | 1.0 | 1.0 |

*Wedi'i ragamcanu gan Gyngor Dinas Casnewydd

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.